**Cynigion Trawsgydymffurfio Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015**
**Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad**

| | |
|---|---|
| Eich enw: | Hazel Drewett |
| Sefydliad (os yn berthnasol): | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| e-bost/rhif ffôn: | 0300 065 3000 |
| Eich cyfeiriad: | Tŷ Cambria<br>29 Heol Casnewydd<br>Caerdydd<br>CF24 0TP |

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn **18 Gorffennaf 2014** i'r

Tîm Rheoli Tir yn Gynaliadwy

Llywodraeth Cymru

Rhodfa Padarn

Llanbadarn Fawr

Aberystwyth

Ceredigion

SY23 3UR

neu gwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon at:

E-bost: SLMenquiries@wales.gsi.gov.uk

**Cwestiwn 1 Ydych chi'n cytuno â chyflwyno llain glustogi ar gyfer silwair cae fel sy'n ofynnol gan reoliadau SSAFO ar gyfer diogelu dŵr rhag llygredd?**

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|
| ☐ | X | ☐ | ☐ | ☐ |

Rheswm:

Byddai cynnwys lleiniau clustogi, fel y'u diffiniwyd yn rheoliadau SSAFO, yn symleiddio, yn cynnig eglurder o ran dealltwriaeth ac yn atgyfnerthu gofynion rheoliadau SSAFO.

**Cwestiwn 2 Ydych chi'n cytuno â chyflwyno lleiniau clustogi ar gyfer defnyddio plaladdwyr?**

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|
| X | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

Rheswm:

Rydym yn croesawu defnyddio lleiniau heb chwistrellu, a fyddant, o gael eu rhoi ar waith ar y cyd ag ystyriaethau eraill ynghylch defnydd (er enghraifft dyfalwch, gwenwyn a symud o fewn yr amgylchedd), yn gymorth i leihau'r risg bod plaladdwyr yn cyrraedd dyfroedd rheoledig. Mae gwybodaeth eang ar gael ynghylch defnydd diogel o blaladdwyr gan gynnwys canllawiau'r Fenter Wirfoddol ar gyfer defnyddio plaladdwyr a gwarchod dŵr. Byddai'n ddefnyddiol cyfeirio at wersi a ddysgwyd o achosion o ddefnyddio plaladdwyr penodol mewn blynyddoedd diweddar, er enghraifft Cypermethrin a Metaldehyde.

**Cwestiwn 3 Ydych chi'n cytuno â'r egwyddor o gynnwys safonau adeiladu storfeydd seilo a slyri yn y trefniadau cydymffurfio?**

| X | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
|---|---|---|---|---|

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|

*Rheswm:*

Byddai cynnwys safonau adeiladu storfeydd seilo a slyri o fewn trawsgydymffurfio yn gymorth i leihau'r risg o ddigwyddiadau llygredd wedi'u hachosi gan adeiladwaith anaddas neu ddiffygiol. Bydd sicrhau bod cyfleusterau storio digonol ac addas yn cael eu darparu yn gymorth i ffermydd ddod yn fwy gwydn mewn amodau tywydd anffafriol a hefyd i allu gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o faetholion ar y fferm drwy gynllunio rheoli maetholion.
Mae diwydiant yn gyfarwydd â chodau gosod a gweithredu asedau a allai fod yn risg, er enghraifft Corgi ar gyfer gosod nwy ac archwiliadau CNC yng nghyswllt croniadau a chronfeydd dŵr. Ar hyn o bryd mae CNC yn ymchwilio i ddarganfod modd o sicrhau bod systemau carthffosiaeth preifat, megis tanciau septig, yn cael eu hadeiladu, eu comisiynu a'u gweithredu i gyfyngu ar y risg y maent yn ei achosi i'r amgylchedd. Ystyrir y gall fod angen dulliau tebyg ar gyfer cyfleusterau storio silwair, slyri ac olew tanwydd.

**Cwestiwn 4 Oes yna unrhyw ofynion eraill y dylid eu hychwanegu at y GAEC hwn i ddiogelu dŵr daear?**

| X | ☐ | ☐ |
|---|---|---|
| Oes | Dim barn | Nac oes |

Rheswm:

Byddai cynnwys holl ofynion SSAFO gan gynnwys olew tanwydd amaethyddol yn gwarchod mwy ar ddŵr daear, adnodd pwysig sydd yn cefnogi cyflenwadau dŵr preifat niferus yn y Gymru wledig yn ogystal â llif gwaelodol i gyrsiau dŵr a gwlyptiroedd.

**Cwestiwn 5 Ydych chi'n cytuno â chynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer bodloni gofynion GAEC 4, 5 a 6?**

| ☐ | X | ☐ | ☐ | ☐ |
|---|---|---|---|---|

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|

Rheswm:

Rydym yn cytuno ag agwedd sy'n fwy rhagweithiol i ymdrin â materion dirywiad ac erydiad pridd sydd yn ymwneud â rheoli amaethyddol amhriodol. Rheoli priddoedd yn briodol yw maen clo cynnal cynhyrchu amaethyddol a gwarchod a gwella'r amgylchedd.

Mae gorchudd tir digonol drwy gydol y cylchdro cnydau (nid yn unig ar adeg cynaeafu) yn bwysig, yn arbennig yn ystod tywydd stormus a chyfnodau hir o law trwm. Byddai Cyfoeth Naturiol Cymru yn argymell dull sydd yn hyrwyddo blaengynllunio gofalus gan ystyried addasrwydd tir ynghyd â dewis mathau priodol o gnydau, amseru a lleoliad. Byddai hyn yn sicrhau bod risg yn cael ei asesu, ei leihau a'i liniaru pe bai angen, a hynny o'r cyfnod sefydlu hyd at gynaeafu. Byddai hyn yn cynnwys adnabod tir risg uchel ble byddai'n amhriodol i rai gweithgareddau arbennig gael eu cyflawni ac felly dylid eu hosgoi. Dylid hefyd gynnwys yn yr asesiad hwn fesurau i ymdrin â lonydd a bylchau caeau ar ffermydd, os ydynt mewn mannau anghyfleus neu heb eu cynnal a'u cadw'n dda ond sydd yn cynnig cysylltedd, ac yn cyfrannu at erydiad pridd. Argymhellir datblygu cynlluniau gweithredu brys ar gyfer mannau ar fuarth y fferm ac oddi arno, rhag ofn i amgylchiadau annisgwyl godi.

Dylai'r Cofnod Asesu Pridd arfaethedig fod yn fodd i sicrhau cynllunio a gweithredu rhagweithiol priodol i atal trafferthion rhag digwydd yn hytrach nag yn ddogfen adweithiol ar gyfer cofnodi materion wedi iddynt ddigwydd, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n croesawu'r cynigion i ymdrin â materion erydiad pridd sydd yn ymwneud â gorbori, porthi atodol, erydiad i lawr llethr neu oddi ar y cae a mynediad da byw at gyrsiau dŵr. Byddai'n ddefnyddiol diffinio ymhellach, yn fanwl, y materion yn ymwneud â diffiniadau 'mynediad heb reolaeth' (er enghraifft wrth ymyl dyfrfannau da byw a adeiladwyd i'r diben hwnnw) gan adolygu'r geiriad er mwyn ei gwneud yn glir mai'r ystyr yw "dim porthi atodol o fewn 10m i gwrs dŵr" (yn hytrach na dim ond porthi atodol 'anaddas'.)

**Cwestiwn 6 Oes yna unrhyw ddarpariaethau ychwanegol y gellid eu cyflwyno i ddiogelu isafswm gorchudd pridd?**

| X | ☐ | ☐ |
|---|---|---|
| Oes | Dim barn | Nac oes |

Rheswm:

Dylid defnyddio'r Cofnod Asesu Pridd fel arf rhagweithiol i asesu risg a rhoi mesurau angenrheidiol ar waith.  Gallai gweithredu gynnwys, er enghraifft, ddefnydd o fesurau penodol ar gyfer tomwellt neu ffermio gyda rhediad y tir fel mecanweithiau i ailgyfeirio a lleihau potensial erydu priddoedd gan ddŵr glaw.

**Cwestiwn 7  A ddylid ehangu'r trefniadau trawsgydymffurfio i gynnwys Nodweddion Amgylchedd Hanesyddol?**

| X | ☐ | ☐ |
|---|---|---|
| Dylid | Dim barn | Na ddylid |

Rheswm:

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cefnogi'r cynnig i gynnwys nodweddion amgylchedd hanesyddol.  Mae'r rhain yn elfen arwyddocaol yng nghyfoeth, ansawdd a naws am le ein tirwedd, ble mae ffiniau a phrysgwydd fel ei gilydd yn ychwanegu gwead, amrywiaeth, ac yn aml, liw at y dirwedd.  Rydym yn cefnogi ei gadw a'i reoli'n briodol ble bynnag y bo'n bosibl.

Byddai'n briodol cyfeirio at LANDMAP a chynlluniau rheoli tirweddau gwarchodedig.

**Cwestiwn 8  O ystyried pwysigrwydd ffiniau traddodiadol i dirwedd hanesyddol Cymru, a ddylid eu cadw waeth beth fo'u cyflwr, ac eithrio at ddibenion ehangu pwyntiau mynediad cyfredol hyd at 10 metr i alluogi mynediad i beiriannau ac anifeiliaid?**

| X | ☐ | ☐ |
|---|---|---|
| Dylid | Dim barn | Na ddylid |

**Os na, allwch chi awgrymu meini prawf eraill i benderfynu pa ffiniau ddylid eu gwarchod/cadw?**

Sylwadau:

Mae unrhyw ffiniau caeau traddodiadol yn rhan o ddarlun cyfoethog a hanesyddol waeth beth fo'u cyflwr ac felly credwn y dylent gael eu cadw oherwydd eu gwerth yn y dirwedd.

O safbwynt pragmatig byddai'n hynod anodd/amhosibl darparu canllawiau clir ar ba bryd y byddai ffin mewn cyflwr rhy wael i'w chadw.

O safbwynt bioamrywiaeth, mae'n arferol i ffiniau traddodiadol fod yn werthfawr o ran bywyd gwyllt waeth beth fo'u cyflwr. Er enghraifft, bydd clawdd pridd gwrych creiriol yn cynnal fflora amrywiol yn aml a wal gerrig sych sydd yn dadfeilio yn cynnig cystal cynefin ag y byddai wal mewn cyflwr da.

Mae rhesymau hanesyddol a diwylliannol hefyd dros gadw llinellau'r hyn a allai fod yn ffiniau hynafol. Mae llawer eisoes wedi eu colli ac mae'r ffiniau sydd wedi goroesi'n nodweddion hynod bwysig. Yn aml mae'r rhain eto'n gwneud cyfraniad helaeth at hynodrwydd lleol, er enghraifft, crawiau'r Gogledd neu wrychoedd tresi aur de Ceredigion.

Mae angen ystyried lleoli neu symud bylchau caeau yn ofalus hefyd yng nghyswllt ansawdd dŵr, ble gall cysylltedd rhwng nodweddion tirwedd waethygu erydiad pridd a materion ansawdd dŵr cysylltiedig.

**Cwestiwn 9 Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig ynghylch torri a chael gwared ar brysgwydd?**

| X | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
|---|---|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |

Rheswm:

Mae'n rhesymegol ymestyn gwarchodaeth adar sy'n nythu at brysgwydd y tu hwnt i linell y gwrych. Mae'r diffiniad o brysgwydd fel ardal fwy na 10m x 10m yn cael ei ystyried yn anhawster. Byddai'n hynod o anodd archwilio ardal mor fawr er mwyn sefydlu a oes adar yn nythu yno ac mae'n debygol iawn na fyddai pob nyth yn cael ei gweld er bod adar ynddynt. Byddai'n anodd gweld pob nyth mewn unrhyw ardal o brysgwydd, ond os oes angen lleiafswm ar gyfer ardal, byddem yn argymell ardal lai o 2m x 2m.

**Cwestiwn 10  Ydych chi'n credu bod angen eglurhad pellach ar y ffordd orau o atal lledaeniad planhigion estron goresgynnol?**

| X | ☐ | ☐ |
|---|---|---|
| Ydw | Dim barn | Nac ydw |

Rheswm:

Croesewir cynnwys lleoli ac atal lledaeniad planhigion estron goresgynnol (INNS).

Gofynnwn ar i ganllawiau gael eu darparu i sicrhau y gellir adnabod rhywogaethau estron goresgynnol (INNS) yn rhwydd a defnydd o ddulliau rheoli arfer gorau priodol.  Byddai'n gymorth cael manylion eglur am y gofynion ynghylch p'un ai a fydd y rheoli yn nwylo'r ffermwr yn uniongyrchol neu a fyddai system o adrodd yn cael ei mabwysiadu, gyda mynediad yn cael ei roi i drydydd parti er mwyn trin planhigion INNS.

Mae rhai adnoddau adnabod a rheoli INNS ardderchog eisoes yn bodoli yn arbennig drwy Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr, sydd yn ganolbwynt drwy Brydain ar gyfer llawer o'r wybodaeth yma.  Byddai'n werthfawr pe gellid datblygu gwybodaeth glir sydd â'r nod penodol o ddarparu gwybodaeth adnabod a rheoli ar gyfer amrywiaeth o rywogaethau y byddai'n debygol dod ar eu traws ar dir amaethyddol.

Bydd angen i'r canllawiau nodi pa weithgareddau ddylai fod yn rhai ymgynghorol a pha rai ddylai gael eu hystyried yn orfodol.  Bydd angen i'r gweithgaredd gofynnol ystyried y camau mwyaf priodol, amseriad y camau ac ôl-ofal dilynol ar gyfer y lleoliad hwnnw.

Bydd angen dehongli 'atal lledaeniad'.  Fel enghraifft, gallai'r canllawiau amlygu gweithgareddau amhriodol ac amseriad y gweithgareddau y dylai ffermwyr/tirfeddianwyr eu hosgoi er enghraifft ffustio clymog neu ymdrin â ffromlys wedi iddo hadu.

Dylai'r canllawiau yma hefyd amlygu pwysigrwydd rheoli planhigion mewn modd sensitif – mae'r creulys er enghraifft yn rhywogaeth frodorol sydd yn blanhigyn gwerthfawr iawn ar gyfer pryfed peillio – ac mewn mannau ble nad yw'n fygythiad i dda byw dylid ei ystyried yn adnodd bwyd gwerthfawr ar gyfer anifeiliaid di-asgwrn-cefn.

Yng nghyswllt tan-bori, mae angen eglurder ynghylch y system llacio rheolau er

| |
|---|
| mwyn sicrhau nad oes unrhyw effaith niweidiol ar weithgareddau rheoli cadarnhaol yn sgil ffensio megis adfer cynefinoedd a choridorau ar lan nant. |

## OPSIWN PELLACH AR GYFER CYNHWYSIANT TRAWSGYDYMFFURFIAD 2015

**Cwestiwn 11 Ydych chi'n cytuno y dylid cryfhau'r rheolau cyfredol ymhellach o fis Ionawr 2015 ymlaen fel y bydd cosb awtomatig yn cael ei rhoi ar daliadau uniongyrchol ym mhob achos pan fo prawf TB yn hwyr o un diwrnod neu fwy, ac nid dim ond i'r rhai y canfuwyd eu bod yn hwyr yn cael prawf goruchwylio TB (WHT/IA12) yn yr archwiliadau trawsgydymffurfio?**

| ☐ | ☐ | X | ☐ | ☐ |
|---|---|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |

| |
|---|
| Rheswm:<br><br>Nid oes gan Cyfoeth Naturiol Cymru unrhyw sylw i'w wneud ar y cwestiwn hwn. |

## EDRYCH YMLAEN– DATBLYGIADAU POSIBL I'R DYFODOL

## LLWYBRAU TRAMWY CYHOEDDUS

**Cwestiwn 12 Beth yw'ch barn ar y dull posibl uchod?**

| ☐ | X | ☐ | ☐ | ☐ |
|---|---|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |

| |
|---|
| Rheswm:<br><br>Rydym yn cefnogi ac yn croesawu'r bwriad i gynnwys hawliau tramwy cyhoeddus fel amod trawsgydymffurfio am y rhesymau a nodwyd yn yr ymgynghoriad. Fodd bynnag, rydym yn argymell yn gryf y dylid cynnwys hawliau tramwy cyhoeddus dan y system trawsgydymffurfio ar unwaith ac y dylai tirfeddianwyr a deiliaid gydymffurfio â'u holl gyfrifoldebau statudol ynghylch hawliau tramwy cyhoeddus, nid |

cynnal a chadw'n unig fel y cyfeirir ato ym mharagraff 93 y ddogfen ymgynghori.

Byddai cynnwys yr amod hwn yn:

- ysgogi tirfeddianwyr a deiliaid i sicrhau bod eu hawliau tramwy cyhoeddus ar agor i'w defnyddio,
- cefnogi awdurdodau lleol wrth iddynt gyflawni eu cyfrifoldeb drwy anfon neges at bawb ynghylch y pwysigrwydd y mae Llywodraeth Cymru'n ei roi ar hawliau cyhoeddus a gwneud Cymru'n hygyrch, a
- lleihau'r amser a'r adnoddau sydd eu hangen i awdurdodau lleol gyflawni gwaith gorfodi i symud rhwystrau o hawliau tramwy, gwaith sy'n gostus ac yn cymryd llawer o amser.

Rydym yn cytuno y dylai gofyniad i safoni mapiau i ffurf electronig reoledig ddarparu gwybodaeth mwy cyson a chyfoes ar gyfer defnydd cyhoeddus o lwybrau ar draws Cymru. Fodd bynnag, nid ydym yn ystyried bod angen oedi rhag cynnwys hawliau tramwy cyhoeddus fel amod trawsgydymffurfio hyd nes y bydd y map terfynol yn cael ei ddigido. Mae gan y mwyafrif o awdurdodau lleol gopïau digidol o fapiau, a dylai'r wybodaeth hon, ynghyd â'r map terfynol, ddarparu digon o wybodaeth i roi hyn ar waith a'i fonitro dan y system trawsgydymffurfio.

Byddai cynnwys hawliau tramwy cyhoeddus fel mater trawsgydymffurfio hefyd yn atgyfnerthu ac yn fanteisiol i'r gwaith a gefnogir gan y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon er mwyn rhoi rhaglen ariannu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ar waith.

Wrth awgrymu bod Llywodraeth Cymru yn datblygu trawsgydymffurfio mewn perthynas â Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn awr, byddem yn nodi y bydd angen i Lywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau'r manteision pwysig y mae wedi eu nodi, weithio'n agos gydag adrannau Hawliau Tramwy Cyhoeddus awdurdodau lleol i sicrhau cydweithrediad, cyfathrebu a gweithredu egnïol er mwyn i'r mesur fod yn llwyddiannus. Byddai oedi rhag cynnwys hawliau tramwy cyhoeddus dan y system trawsgydymffurfio'n cyfrannu tuag at anghyfleustra parhaus i'r cyhoedd ac at y gost i'r pwrs cyhoeddus.

**RHEOLAU RHWYMO CYFFREDINOL (GBRs)**

**Cwestiwn 13 Ydych chi'n cytuno â chwmpas y gweithgarwch ar gyfer Rheolau Rhwymo Cyffredinol, fel yr awgrymir uchod?**

| X | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
|---|---|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |

Rheswm:

Byddai CNC yn cefnogi'n gryf gyflwyno cyfres gynhwysfawr o Reolau Rhwymo Cyffredinol sydd naill ai'n;

- mynd i'r afael â meysydd o arfer gwael heb eu rheoleiddio lle mae tystiolaeth i ddangos bod y rhain yn arwain at effaith amgylcheddol, neu;
- ble gellir cyflwyno canlyniadau rheoleiddiol mewn modd tecach neu fwy effeithiol.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn cytuno'n fras â chwmpas arfaethedig y gweithgareddau y bydd Rheolau Rhwymo Cyffredinol (GBRs) yn ymdrin â nhw fel y manylwyd yn Adran 98 dogfen ymgynghori Cynigion Trawsgydymffurfio Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015. Fodd bynnag, dylid rhoi mwy o ystyriaeth i adolygu'r amrediad llawn o reoliadau presennol sydd yn wynebu rheolwyr tir er mwyn sefydlu a fyddai'n well pe baent yn cael eu gweithredu drwy Reol Rhwymo Cyffredinol yn hytrach na'r systemau presennol. Mae enghreifftiau'n debygol o godi ble mae Rheolau Rhwymo Cyffredinol yn ddull rheoli mwy effeithlon ac y byddai'n sicrhau canlyniadau rheoli gwell yn unol ag Egwyddorion Hampton a menter Llywodraeth Cymru, Hwyluso'r Drefn mewn Amaethyddiaeth.

Mae cyflwyno Rheolau Rhwymo Cyffredinol fel arf yn y fframwaith rheoli sydd yn wynebu rheolwyr tir yn creu'r posibilrwydd o gyflwyno mwy o gyfiawnder i'r sector sydd yn cael ei reoleiddio. Er enghraifft, byddai symud elfennau o Drawsgydymffurfio, yn benodol rhai o reolau'r Cyflwr Amaethyddol ac Amgylcheddol Da i'r Rheolau Rhwymo Cyffredinol yn sicrhau y byddai angen i bob rheolwr tir gydymffurfio, ac nid y rhai sy'n derbyn Taliad Sengl neu Daliad Uniongyrchol yr UE yn unig.

Mae gan CNC dystiolaeth sylweddol sydd yn dangos effaith gweithgareddau rheoli gwael ar dir ar yr amgylchedd. Mae rhai o'r arferion gwael hyn, er bod y Cod Ymarfer Amaethyddol Da'n cynghori i beidio'u defnyddio, y tu allan i'r fframwaith rheoleiddio bresennol. Yn achos llawer o'r arferion hyn, yr effaith gronnus sydd yn effeithio ar yr amgylchedd yn hytrach na digwyddiad unigol. Byddai tystiolaeth CNC o'r arferion gwael sydd yn arwain at ddifrodi amgylcheddol yn gymorth fel sail i ddatblygu Rheolau Rhwymo Cyffredinol yn y Sector Rheoli Tir.

**Cwestiwn 14 Ydych chi'n cytuno mai CNC yw'r corff gorfodi priodol ar gyfer Rheolau Rhwymo Cyffredinol?**

☐ X ☐ ☐ ☐

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|

Rheswm:

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru mewn sefyllfa dda i ymgymryd â rôl gorfodi ar gyfer Rheolau Rhwymo Cyffredinol ond byddai angen adnoddau ychwanegol er mwyn gallu ymgymryd â'r maes gwaith newydd yma. Mae sefydliadau eraill hefyd sydd yn rheoleiddio'r sector rheoli tir gwledig ac a allai gyfrannu hefyd at y gwaith o orfodi'r Rheolau Rhwymo Cyffredinol hynny sydd yn ategu eu meysydd arbenigol. Er enghraifft, Arolygiaeth Wledig Cymru, Iechyd Anifeiliaid a'r Awdurdodau Lleol.

Mae'n debygol y bydd enghreifftiau pan fyddai Cyfoeth Naturiol Cymru ac Arolygiaeth Wledig Cymru ill dau yn awdurdodau gorfodi ar gyfer Rheolau Rhwymo Cyffredinol penodol. Byddai hyn yn fwyaf tebygol pan fyddai cais GAEC, wedi ei reoleiddio'n wreiddiol gan Arolygiaeth Wledig Cymru dan y system trawsgydymffurfio, yn cael ei symud i Reolau Rhwymo Cyffredinol fel yr awgrymwyd yn ein hateb i gwestiwn 13.

**Cwestiwn 15 Ydych chi'n cytuno y byddai cosbau ariannol amrywiol yn ddull gorfodi priodol ar gyfer Rheolau Rhwymo Cyffredinol?**

| X | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
|---|---|---|---|---|
| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |

Rheswm:

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cytuno mai cosbau ariannol amrywiol yw'r mecanwaith gorfodi mwyaf priodol fwy na thebyg ar gyfer Rheolau Rhwymo Cyffredinol.

**Cyffredinol**

**Cwestiwn 16 Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau ynghylch y cynigion ar gyfer newidiadau i'r gofynion trawsgydymffurfio. Os oes gennych chi unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y gofod isod i'w nodi. Gallwch ddefnyddio'r gofod i nodi problemau o ran cadw gofynion trawsgydymffurfio cyfredol hefyd:**

Mae cynhyrchu amaethyddol yn allweddol i bennu ansawdd ein hamgylchedd, boed wedi ei seilio ar dir neu ddŵr. Nid yw llawer o'r arferion ffermio sydd yn effeithio ar ein hamgylchedd yn fanteisiol yn economaidd; mae arferion rheoli gwael yn lleihau hyfywedd ariannol busnesau fferm ac yn effeithio ar yr economi wledig ehangach. I'r gwrthwyneb, mae arferion rheoli tir yn gynaliadwy'n fanteisiol yn economaidd, yn cefnogi cymunedau gwledig ac yn darparu gwell amgylchedd.

Cyngor ac arweiniad, ynghyd â chyfundrefnau rheoleiddio allweddol megis trawsgydymffurfio, yw'r arfau hanfodol y gallwn ni ac eraill eu defnyddio i'n cynorthwyo i gael canlyniadau amgylcheddol cynaliadwy. Mae'r canlyniadau hyn yn cynnwys y rhai sydd yn bodloni gofynion Gorchmynion Cynefinoedd ac Adar a Fframwaith Dŵr, a chanlyniadau cadarnhaol ar gyfer ein safleoedd gwarchodedig, cynefinoedd a rhywogaethau, ac ar gyfer ein cylch gwaith mynediad a hamdden. Drwy gydweithio gyda Llywodraeth Cymru, nod Cyfoeth Naturiol Cymru yw integreiddio cyfundrefnau i wireddu'n dyhead am reoli adnoddau naturiol mewn modd integredig.

**Colli cyswllt â Rheoliadau'r Asesiad ar yr Effaith ar yr Amgylchedd (Amaeth) (Cymru).** Rydym yn bryderus y bydd diddymu Rheoliadau'r Asesiad ar yr Effaith ar yr Amgylchedd (rheoliadau'r AEA) (Amaeth) (Cymru) o'r system Trawsgydymffurfio ym mhob maes ac eithrio'r rhai'n ymwneud â phridd yn gwanhau effeithiolrwydd y rheoliadau hyn yn ddifrifol. Ar hyn o bryd, mae trawsgydymffurfio'n un o'r prif fecanweithiau ar gyfer gorfodi rheoliadau'r AEA.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi dewis trosglwyddo 15% o gyllideb Taliadau Uniongyrchol i'r Cynllun Datblygu Gwledig. Ar yr un pryd bydd gwyrddu taliadau Colofn 1 yn cael ei roi ar waith yn y ffyrdd mwyaf syml i ffermwyr. Er bod y dull cyffredinol hwn yn ddealladwy o safbwynt datblygu dull wedi ei dargedu'n fwy tuag at wyrddu'r PAC yng Nghymru, byddai'n anffodus pe bai agwedd syml tuag at wyrddu (ac yn arbennig gwarchod tir pori parhaol) yn golygu unrhyw leihad yn y lefel bresennol o warchodaeth a roddir i laswelltir wedi ei led-wella sydd â bywyd gwyllt toreithiog.

Nid yn unig y mae'r glaswelltiroedd hyn sydd wedi eu lled-wella ac sydd â bywyd gwyllt toreithiog yn adnodd bioamrywiaeth arwyddocaol iawn (er yn prinhau), ond maent hefyd yn gwarchod swm sylweddol iawn o garbon pridd neilltuedig. O ganlyniad, mae dadleuon cryf dan agenda'r Gwasanaethau Ecosystemau i sicrhau bod Llywodraeth Cymru'n parhau i ystyried pob achos o dorri Rheoliadau presennol yr AEA yn achos o dorri rheolau'r system trawsgydymffurfio. Rydym yn cydnabod bod rheoliadau'r AEA yn parhau i fod yn rhan o GAEC y pridd, ond yn teimlo bod rheoliadau'r AEA yn gwarchod mwy ar fioamrywiaeth yn ei gyfanrwydd yn hytrach na phriddoedd yn unig.

| |
|---|
| **Cadw nodweddion tirwedd**. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi cadw nodweddion arbennig y dirwedd (pyllau, ffosydd ac ymylon caeau.) Gall y nodweddion hyn fod yn bwysig yn lleol yn arbennig mewn tirweddau sydd ar raddfa fach. Mae'r pyllau, ffosydd ac ymylon sydd yn weddill yn ychwanegiadau gwerthfawr at ansawdd a chyfoeth ein tirwedd yn ei gyfanrwydd. Gallant gyfoethogi profiad y cerddwr yng nghefn gwlad oherwydd y bywyd gwyllt y maent yn ei gynnal a'r stori y maent yn ei hadrodd am reoli tir ddoe a heddiw. |

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu darparu ar gyfer y cyhoedd, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os hoffech i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma. ☐